



## **Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council**

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Mawrth 2019 am 6.00yh  
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 5 March 2019 at 6.00pm  
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors** John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Clive Davies, Graham Evans, Elaine Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Richard Jones, Wyn Jones, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips, Shan Williams a Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

### **1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i'r cyfarfod yn cynnwys y cyfieithydd dros dro, Mrs Siân Jones, a gohebydd y wasg. Croesawodd hefyd y Cyng. Catrin Miles yn ôl i Gymru yn dilyn ei thaith i Awstralia.**

**Rhaid oedd taro nodyn trist ym mywyd dau gynghorydd gan fod y Cyng. Trystan Phillips wedi colli ei fam a'r Cyng. Siân Maehrlein ei thad yn ddiweddar. Mynegodd y cyngor ei gydymdeimlad yn y ffordd arferol.**

**Cyfeiriodd y Maer at lwyddiant y Parêd Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd ar Fawrth 1af eleni am y tro cyntaf o Neuadd y Dref i'r Castell; diolchwyd i Steffan Rees (Cered) ac i Theatr Byd Bychan yn ogystal ag athrawon a phlant Ysgolion Cynradd Aberteifi a Phenyparc am eu hymdrechion; cafwyd gorymdaith luosog a lliwgar dros ben. Da oedd gweld bod nifer o ddigwyddiadau eraill wedi eu trefnu i ddathlu gŵyl ein nawddsant.**

**Llongyfarchodd yn wresog Kyle, mab y Cyng. Elaine Evans, ar ei lwyddiant ysgubol drwy ennill cystadleuaeth Prydeinig am drin gwallt, sef "British Barber of the Year" yn Llundain – ef oedd yr unig Gymro i gyrraedd y rownd derfynol. Enillwyd y wobr "Amazon Rural Business Award" am y busnes gorau ym Mhrydain gan fwyty Crwst yn ddiweddar yng Nghaerwrangon. Cytunwyd anfon gyfarchion y cyngor ymlaen at y ddau.**

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed everyone to the meeting including Mrs Siân Jones, deputising for the simultaneous translator, and Mr Dave Parkinson (press member). A warm welcome home was also extended to Cllr Catrin Miles following her recent visit to Australia.

The Mayor referred to the personal losses suffered by two members: Cllr Trystan Phillips on the passing of his mother and Cllr Siân Maehrlein on the passing of her father. Members offered their condolences in the usual manner.

The Mayor referred to the success of the inaugural St Davids Day Parade held on Friday, 1<sup>st</sup> March from the Guildhall to the Castle; Steffan Rees (Cered) and officials of Small World Theatre were thanked for their assistance as well as the staff and children of Ysgol Gynradd Aberteifi and Ysgol Gynradd Penyparc. Likewise, it was pleasing to see that a number of events were held in the area to celebrate the patron saint of Wales.

Congratulations were extended to Kyle, son of Cllr Elaine Evans, on his success in winning the "British Barber of the Year" competition in London, Kyle being the only Welsh person to reach the final. The "Amazon Rural Business Award" for the best business in Britain was won by Crwst in Worcester recently. It was agreed to forward the council's congratulations and warmest greetings to both.

2. **Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein (*profedigaeth deuluol / family bereavement*)

3. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.**  
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	Holl faterion cynllunio / All planning matters
---------------------------------	--

4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 5 Chwefror.**  
Confirmation of Minutes of 5 February Council Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod cofnodion cyfarfod 5 Chwefror yn gywir.**

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 5 February council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Elaine Evans.

5. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 5 Chwefror (Mewn Pwyllgor).**  
Confirmation of Minutes of 5 February Council Meeting (In Committee).

**Tud. 1462, eitem 1 (Cyfraniad i'r Pwll Nofio): Cytunwyd ar "£8,000" yn hytrach na "£8,500".**  
Page 1462, item 1 (Donation to the Swimming Pool): It was agreed on "£8,000" not £8,500".

**Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Trystan Phillips ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod cofnodion cyfarfod "Mewn Pwyllgor" 5 Chwefror yn gywir.**

With the above amendment, Cllr Trystan Phillips proposed that the 5 February "In Committee" council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

6. **Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tud. 1460, eitem 13: Disgwylir i Mr Jac Davies (Cyfarwyddwr y Castell) ymateb i wahoddiad y cyngor am iddo fethu mynychu cyfarfod mis Mawrth.**

Page 1460, item 13: As Mr Jac Davies (Castle Director) was unable to attend the March council meeting, his response to attend a future meeting is awaited.

**Tud. 1462, eitem 1 (Cyfraniad i Bwll Nofio Aberteifi): Gweler y ffurflen gais.**

Page 1462, item 1 (Donation to Cardigan Swimming Pool): See attached application form.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod y cyngor yn cyfrannu £8,000 tuag at gostau technegol y Pwll Nofio.**

It was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Debra Griffiths that the council donates £8,000 towards the purchase of automated chlorination units for both swimming pools at the complex.

**Tud. 1463, eitem 4 (Adolygiad o'r "Rheolau Sefydlog"): Mae'r clerc wedi paratoi'r newidiadau a'r ychwanegiadau i'r ddogfen yn barod i'w cymeradwyo gan y cyngor.**

**Blaenyrrwyd y ddogfen ymlaen llaw i'r cynghorwyr.**

Page 1463, item 4 (Review of "Standing Orders"): The clerk has made the amendments and additions to the document in preparation for approval by council.

The draft copy was forwarded to members in advance.

**Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â'r gwelliannau, cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Shan Williams bod y cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau a'r ychwanegiadau i'r "Rheolau Sefydlog".**

**Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis a'r clerc, Mr Wynford Jones.**

Following a discussion regarding the amendments, it was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Shan Williams that the council approves the amendments and additions made to the "Standing Orders".

The document was signed by the Mayor, Cllr John Adams-Lewis and the clerk, Mr Wynford Jones.

7. **Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Chwefror yn y cyfarfod.**

The Mayor's Diary of Events for February was distributed at the meeting.

## 8. Cynllunio / Planning.

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A190105	Guildhall Market, Pendre	Demolition of existing WC block and construction of new circulation extension to market buildings	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

## 9. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/3/19	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Chwefror / February).</i> <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room</i> <i>Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings</i> <i>(5 &amp; 19/2/19)</i> <i>Band Lydan (Mawrth) / Broadband (March)</i>	A9 A9 A20	D/D 4681 4681	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 0.00
15/2/19	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (5/2/19)</i>	A18	4682	£70.80 (0.00)
1/3/19	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Chwefror / February)</i>	A5	4683	£763.03 (0.00)
1/3/19	L. W. Jones ( <i>Costau'r clerc / Clerk's expenses</i> ): <i>Costau teithio/travelling (Aberaeron, Clerks Seminar),</i> <i>lluniaeth/refreshments (cyflwyno grantiau/grant presentation, Sul y Cadoediad/Remembrance Sunday),</i> <i>cardiau cyfarch, cludiant a manion/greeting cards,</i> <i>postage and sundries)</i>	A21	4684	£98.00 (0.00)
25/2/19	Tobruk Engineering: <i>Deunydd / Material (goleuadau Nadolig/Christmas lights)</i>	B1	4685	£134.40 (22.40)
18/2/19	J. Harries Electrical: <i>Deunydd / Material (goleuadau Nadolig/Christmas lights)</i>	B1	4686	£309.36 (51.56)
20/2/19	Festive Lights: <i>Goleuadau Nadolig / Christmas lights</i>	B1	4687	£839.70 (139.95)
9/2/19	Mr Justin Percival, Flat 1, 29 Pendre: <i>Cyflenwad o drydan i'r goleuadau Nadolig.</i> Supply of electricity for the Christmas lights.	B1	4688	£50.00 (00.00)
27/2/19	Insignia Business Solutions: <i>Deunydd i'r swyddfa / Office supplies</i>	A17	4689	£73.32 (12.23)
25/2/19	David Evans: Plinth and plaque (Cardigan Rocks display for Guildhall cabinet) ( <i>Canmlwyddiant diwedd y rhyfel</i> )	B5	4690	£22.50 (0.00)
21/2/19	Swyddfa Archwilio Cymru / Wales Audit Office: <i>Archwilydd Allanol / External Auditor (2017-18)</i>	A13	4691	£225.00 (0.00)
27/9/17	W. J. Williams & Davies: <i>Gwaith ar brydles Clwb Rygbi Aberteifi.</i> Work undertaken with the preparation of lease in favour of Cardigan Rugby Club. W. J. Williams & Davies: <i>Gwaith ar brydles Clwb Bowlio Aberteifi.</i> Work undertaken with the preparation of lease in favour of Cardigan Bowling Club.	A22 A22	4692 4692	£300.00 (50.00) £1,151.00 (190.00)
1/3/19	George Davies & Evans: <i>Gwaith ar brydles Clwb Bowlio Aberteifi.</i> Work undertaken with the preparation of lease in favour of Cardigan Bowling Club.	A22	4693	£900.00 (150.00)
5/3/19	Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan: <i>Costau / Expenses: "Cyflwyniad i Gynllunio / Introduction to Planning" – Haverfordwest Town Council, 27/3/19</i>	A3	4694	£35.00 (0.00)
28/2/19	<i>Bachan Deche / Handyperson (Chwefror / February)</i>	A19	4695	£125.40 (20.90)
5/3/19	Y Cyng. / Cllr Richard Jones: <i>Goleuadau Nadolig / Christmas lights (rope lights).</i>	B1	4696	£237.43 (0.00)
28/2/19	M. & E. Pearce: <i>Deunydd / Material (goleuadau Nadolig/Christmas lights)</i>	B1	4697	£336.00 (56.00)

**Cynigiodd y Cyng. Shan Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer.**

Cllr Shan Williams proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

**Derbyniadau/Receipts:**

25/2/19	Hysbysebion i fap y dref / Adverts for town map	£175.00
9/1/19	Lloyds Bank: Llog / Interest	£1.91
15/2/19	Groundwork: Tesco Bags of Help (Pentop)	£1,000.00

**(b) Adolygiad o'r Strategaeth Blynyddol Ariannol /  
Review of the Annual Investment Strategy.**

**Blaenyrrwyd y ddogfen ymlaen llaw i'r cynghorwyr.**

**Cynigiwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod y cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Blynyddol Ariannol.**

**Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis a'r clerc, Mr Wynford Jones.**

The document had been forwarded to all councillors in advance.

It was proposed by Cllr Yvonne O'Neill and seconded by Cllr Elaine Evans that the council approves the Annual Investment Strategy.

The document was signed by the Mayor, Cllr John Adams-Lewis and the clerk, Mr Wynford Jones.

**10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) **Coed ger hen bont afon Teifi: mae'r canghennau wedi eu torri ond mae'r boncyffion yn dal i fod yn yr afon. Os na'u cliriwyd byddant yn beryg i gychod/canŵs sy'n defnyddio'r afon, yn enwedig yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf. Cytunodd y Cyng. Miles wneud ymholiadau ynglŷn â phwy sydd wedi rhoi'r cyfarwyddyd i glirio'r coed.**
- (ii) **Achwyniad gan aelod o'r cyhoedd bod matras wedi ei dympio ger y man chwarae yn Netpwl ac yna wrth y bandstand ar y safle. Erbyn hyn y mae wedi ei glirio gan weithwyr y cyngor sir.**
- (iii) **Yn anffodus, bu'n rhaid i Gabinet y cyngor sir wneud penderfyniad i ychwanegu 2% i'r dreth cyngor (cynnydd o 7% yn lle'r 5% gwreiddiol) er mwyn sicrhau cyllid i'n hysgolion i gwrdd â chostau ychwanegol – codiad cyflog a chostau pensiwn ychwanegol i'r staff.**
- (iv) **Disgwylir bin pensil a bwrdd picnic i gyrraedd Cae Chwarae Pentop ar 14 Mawrth. Bydd angen i'r defnyddwyr a'r swyddogion gyfarfod i drafod gwobr Tesco o £1,000 (*Bags for Help*) er mwyn archebu cyfarpar ar gyfer plentyn anabl sy'n byw gerbron.**

**(b) Y Cyng. Elaine Evans:**

- (i) **Derbyniwyd cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd bod y dŵr yn dal i gasglu ger y crwb yn Teras Wiliam.**
- (ii) **Mae ffurflen rhybudd wedi ei gosod ar y cwch sydd yn parcio ar y ffordd ym Mro Teifi a hefyd ar y cerbyd sydd yn Rhos-y-dre.**

**(c) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) **Derbyniwyd ymateb oddi wrth Mr Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, bod y gwaith i osod palmant o Lôn Caemorgan i bentref Penyparc yn dal tan ystyriaeth.**
- (ii) **Mae'r gwaith wedi dechrau ar gylchfan yr ysbyty i osod cyrbiau isel a gwelliannau o Bontycleifion hyd Barc Teifi. Yn anffodus, bydd y goleuadau pedair-ffordd yno am bedair wythnos.**
- (iii) **Penderfyniad y cyngor sir i wrthod talu am larymau gofal i denantiaid mewn cartrefi tan ofal. Mae Ben Lake AS wedi trafod y mater gyda'r Cyng. Adams-Lewis a chytunwyd gofyn i'r cyngor sir ailystyried. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr yn cefnogi hyn.**
- (iv) **Braf oedd mynychu cyfarfod ar brynhawn Sul, 24 Chwefror yn neuadd Eglwys y Santes Fair i wrando ar ddarlith gan y Dr Mohammed Alhadj Ali, darlithydd yn Ysgol Feddygaeth Caerdydd, ac ar yr un pryd croesawu teulu arall o Syria i fyw yn Aberteifi. Da oedd deall bod y teulu cyntaf o Syria wedi ymgartrefu'n hapus a bod y plant yn rhugl yn yr iaith Gymraeg.**
- (v) **Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau'n ymrwymedig i safiad diniwclear. Gyda rhannau o Gymru yn cael eu hystyried fel safleoedd posibl i gladdu gwastraff ymbelydrol, mae'r cyngor sir wedi ailadrodd ei ymrwymiad diniwclear hirsefydlog. Penderfynwyd yn ystod Gorffennaf 2006 y byddai'r cyngor yn Awdurdod Lleol Diniwclear – a gwnaed ymrwymiad arall i gefnogi dewisiadau cynladwy eraill yn lle ynni niwclear.**

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Tree branches near the old bridge on the Teifi: the branches have been cut but the tree trunks are still visible in the river. If not cleared, they could cause a hazard to boats and canoes using the river, especially during the spring and summer seasons. Cllr Miles agreed to make further enquiries in order to alleviate the problem.
- (ii) A complaint has been received from a member of the public that a mattress has been left near the children's playground in Netpool and also abandoned near the bandstand. County council workers have since cleared the debris.
- (iii) It is regrettable, but the Cabinet of the county council has been obliged to increase the council tax by 2% (a total increase of 7%) to secure the funding of education in the county – an increase in salary and pension contributions of staff are main reasons.
- (iv) A pencil bin and a picnic table are expected to be delivered to the Pentop Play Area by 14 March. Users and officers will need to discuss the £1,000 Tesco award (Bags for Help) in order to purchase suitable equipment for a disabled child living in the vicinity.

(b) Cllr Elaine Evans:

- (i) A member of the public has complained that water is still retained on one of the speed humps in Williams Terrace.
- (ii) A warning removal notice has been placed on the boat parked on the highway in Bro Teifi and on the unauthorised vehicle parked at Rhos-y-dre.

(c) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) A response has been received from Mr Ken Skates, the Welsh Government Minister for Economy and Transport, stating that the footway scheme on the A487 between Caemorgan Road and Penyparc is still under consideration. It will be prioritised in accordance with the audit approach set out within the Active Travel Design Guidance with additional factors, including land acquisition and project cost being taken into consideration.
- (ii) The work has commenced near the hospital roundabout to place low kerbs and pathway improvements from Pontycleifion to Parc Teifi. Unfortunately, a four-way traffic control system is in place and is expected to remain for four weeks.
- (iii) The Ceredigion County Council proposal to withdraw payment for the care alarm service in its sheltered accommodation schemes. Ben Lake MP has discussed the issue with Cllr Adams-Lewis and both have agreed to request the county council to reconsider its decision. The clerk was requested to forward a letter supporting this to the authority.
- (iv) An enjoyable afternoon was had on Sunday, 24 February at St Mary's Church hall when Dr Mohammed Alhadj Ali, lecturer at the Cardiff School of Medicine, gave a presentation on the resettlement issues facing Syrians in the United Kingdom. A second family from Syria to be resettled in Cardigan was introduced at the meeting. It was encouraging to understand that the first family has settled very well and that the children are fluent in Welsh.
- (v) Ceredigion County Council is continuing its commitment as a nuclear-free county. With various regions of Wales being considered as dumping grounds for radioactive waste, the county council has reiterated its longstanding nuclear-free commitment made in July 2006 – additional commitments were made to encourage sustainable energy systems rather than nuclear energy.

**11. Gohebiaeth / Correspondence.**

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
230	CSC / CCC (Eifion Jones): <i>Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Ymateb Cyngor Sir Ceredigion). Rights of Way Improvement Plan (The response of Ceredigion County Council)</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 17 Chwefror.</i> Forwarded to all councillors on 17 February.
231	CSC / CCC (Dana Jones): <i>Templad o "Hysbysiad Ysgrifenedig ynglŷn â Buddiant Personol / Buddiant sy'n Rhagfarnu o dan y Côd Ymddygiad i Aelodau).</i>  Template of the "Notification of a Personal / Prejudicial Interest under the Code of Conduct for Members"	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 28 Chwefror.</i> Forwarded to all councillors on 28 February. <i>Wedi i'r clerc siarad â Ms Dana Jones, cytunwyd bod y ffurf bresennol yn gywir ac effeithiol.</i> Following a discussion with Ms Dana Jones, it was agreed that the present method of declaring interest implemented by the town council is correct and efficient.

232	CSC / CCC (Gareth Payne): <i>Ymateb i broblem olew yn yr afon Teifi</i> . Response to the concern regarding oil leakage into the Teifi. The matter has been referred to Natural Resources Wales.	Nodwyd. Noted.
233	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Pwllhai – 19-20/3/19, 9:00am-5:30pm</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 5 Mawrth.</i> Forwarded to all councillors on 5 March.
234	Cardigan Guides: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i fynychu pantomeim</i> . An invitation is extended to the Mayor and Mayoress to attend the pantomime at St Dogmaels Hall on 16 February.	<i>Mae'r Maer a'r Faeres wedi mynychu'r perfformiad.</i> The Mayor and Mayoress attended the performance.
235	<i>Pwll Nofio Aberteifi: Llythyr o ddiolch i'r Maer am ei gyfraniad o £1,000 i'r gronfa.</i> Cardigan Swimming Pool: A letter of thanks from the committee for the donation from the Mayor of Cardigan, Cllr John Adams-Lewis.	Nodwyd. Noted.
236	Elin Jones, AC/AM: <i>Poster i ynglŷn a'i chymorthfeydd.</i> Posters advertising her advice surgeries.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on the notice board.
237	Tharapies4services CIC: <i>Gwahoddiad i ddigwyddiad ar Ddydd y Lluoedd Arfog.</i> Invitation to an event on Armed Forces Day (29 June).	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Cyng. Shan Williams.</i> The invitation has been forwarded to Cllr Shan Williams.
238	Groundwork UK (Tesco Bags of Help): <i>Cyfraniad / Donation by BACS (£1,000) to the Pentop Play Area.</i>	<i>Defnyddir yr arian i brynu cyfarpar arbenigol i blentyn gydag anabledd.</i> The money to be used for the purchase of equipment for a child with disability.
239	<i>Llywodraeth Cymru: Cyllid i Gefnogi Cyd-drefniadau Cychwynnol.</i> Welsh Government: Support for initial setting up of Joint Arrangements – Core Themes.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 21 Chwefror.</i> Forwarded to all councillors on 21 February.
240	Cardigan Amateur Boxing Club: <i>Cais am lythyr o gefnogaeth i'r Clwb geisio am grant i ymestyn y gampfa ym Maes-yr-haf.</i> Application for a letter of support to the Club's efforts to extend the gymnasium at Maes-yr-haf.	<i>Cytunwyd bod y cyngor yn anfon llythyr o gefnogaeth.</i> It was agreed that the council forwards a letter of support.
241	<i>Un Llais Cymru: Ffurflen Aelodaeth.</i> One Voice Wales: Membership Form.	<i>Cytunwyd yng Nghyfarfod y Gyllideb i ailymaelodi.</i> It was agreed at the Budget meeting to reapply for membership.
242	Mr Ken Griffiths ( <i>Archwilydd Mewnol/Internal Auditor</i> ): <i>Cytundeb / Agreement form of "Terms of Reference" dated 12 February 2019.</i>	<i>Mae Mr Griffiths wedi cytuno â'r termau.</i> Mr Griffiths has agreed with the terms.
243	Mr N. Cooper: Meeting regarding the planned roll out of 5G in Wales and the UK. A talk by Ian R. Crane will be held on Friday, 29 March at 7:00pm at St Dogmaels Memorial Hall. <i>Manylion pellach / Further details: gyda.coed@gmail.com / 07970 987434</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 5 Mawrth.</i> Forwarded to all councillors on 5 March. <i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on the notice board.
244	Menter Aberteifi Cyf. ( <i>Cywiriadau i'r cloc a'r lifft / Repairs to the town clock and Guildhall lift.</i> ) <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
245	<i>Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (Caerdydd a'r Fro 2019): Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
246	<i>Aberteifi 2010: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
247	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday Show: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
248	<i>Theatr Mwldan: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.

249	<i>Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi / Cardigan River &amp; Food Festival 2019: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
250	<i>Carnifal Aberteifi / Cardigan Carnival: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
251	<i>Ambiwylans Awyr Cymru i Blant / Children's Wales Air Ambulance: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
252	<i>Swyddfa Urdd Ceredigion: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
253	<i>Eisteddfod Llangollen 2019: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
254	<i>Ceredigion Women Against State Pension Injustice (WASPI): Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
255	<i>Gofal Mewn Galar / Cruse Bereavement Care: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
256	<i>Adroddiad y Bachan Deche (Chwefror) Handyperson's Report (February)</i>	<i>I'w drafod tan eitem 13.</i> To be discussed under item 13.
257	<i>3<sup>rd</sup> Cardigan Sea Scouts: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
258	<i>Cymdeithas Aberteifi Society: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.

**Dana Jones:** *Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau / Democratic Services and Standards Officer*

**Eifion Jones:** *Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Arfordir a Chefnwlad*

*Public Rights of Way Officer – Coast and Countryside*

**Elin Jones:** *Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer*

**Gareth Payne:** *Swyddog Tai ac Amddiffyn Amgylcheddol / Housing and Environmental Control Officer*

## 12. (a) Ethol Maer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2019-20.

**Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Jones bod y Dirprwy-Faer, y Cyng. Shan Williams, i'w hethol yn Faer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2019-20. Roedd y cyngor yn unfrydol.**

## (b) Ethol Dirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2019-20.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y Cyng. Clive Davies i'w ethol yn Ddirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2019-20. Roedd y cyngor yn unfrydol.**

### (a) Election of Cardigan Town Council Mayor-Elect for 2019-20.

It was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Wyn Jones that the Deputy Mayor, Cllr Shan Williams, be elected Cardigan Town Council Mayor-Elect for the year 2019-20. Members were unanimous in their decision.

### (b) Election of Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for 2019-20.

Cllr Shan Williams proposed that Cllr Clive Davies be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2019-20. This was seconded by Cllr Graham Evans. Members were unanimous in their decision.

## 13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

### Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 19 Chwefror.

Confirmation of 19 February Sub-committee Minutes.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill bod cofnodion 19 Chwefror yn gywir.**

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 19 February minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Yvonne O'Neill.

**Materion yn codi** Matters arising

**Tud. 1465, eitem Priffyrdd: Biniâu sbwriel. Cytunwyd gosod y mater ar agenda is-bwyllgorau mis Mawrth.**

Page 1465, item Highways: Litter bins. It was agreed to place the item on the agenda of the March sub-committees.

**Tud. 1466(c): Baw colomennod. Cytunwyd bod y cyngor yn ysgrifennu at adran amgylcheddol y cyngor sir yn gofyn iddynt ystyried y broblem o waredu'r colomennod gan eu bod yn fygythiad iechyd.**

Page 1466(c): Pigeon faeces. It was agreed to write to the environmental department of the county council requesting officers to consider methods of combating the problem due to potential health hazard consequences.

**Adroddiad y Bachan Deche: Mae ffens uchaf Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed mewn cyflwr gwael. Trafodir y mater yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol ar 6 Mawrth.**

Handyperson's Report: The fence on the upper side of the rugby pitch along Greenland Meadows is in a very poor condition. The issue will be discussed at the Advisory Committee meeting on 6 March.

**Maes Sgrialu: Cynhaliwyd cyfarfod ar y maes gyda Cathryn Morgan (cyngor sir), ymddiriedolwyr y pwyllgor a'r Cyng. Graham Evans. Mae Ms Morgan wedi gofyn i ddau gwmni am bris i wneud y gwaith.**

Skateboard Park: A site meeting was held with Ms Cathryn Morgan (county council), trustees of the committee and Cllr Graham Evans. Ms Morgan has requested quotations for the work from two companies.

**Castell Aberteifi: Dywedodd y Cyng. Clive Davies bod rhaglen gyffrous yr haf yn datblygu'n hwylus.**

Cardigan Castle: Cllr Clive Davies stated that the summer programme of exciting events is slowly developing.

**14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer:**

(i) **Cyllid am larymau yn cael ei ddiddymu o Fro Teifi. Trafodwyd tan eitem 10(c)(iii).**

Funding for alarms being withdrawn at Bro Teifi.  
Discussed under item 10(c)(iii).

(b) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies:**

(i) **Symud y ciosg ffôn tu allan i Neuadd y Dref: Mae'r drafodaeth yn parhau gyda swyddogion cwmni BT.**

Removal of telephone kiosk outside the Guildhall: Discussions are continuing with BT officials.

(ii) **Newid hinsawdd. Trafodwyd y mater tan eitem 10(c)(v).**

**Gofynnodd y Cyng. Davies i gyngor y dref bwysu ar y cyngor sir i ddatblygu cynllun gweithredol dros y deng mlynedd nesaf i dargedu niwtraleiddio Co2. Cytunwyd bod syniadau'r Cyngorwyr Shan Williams, Catrin Miles, Clive Davies a Richard Jones yn cael eu casglu a'u hanfon ymlaen at y clerc er mwyn eu paratoi cyn eu hanfon at y cyngor sir.**

Climate change. The issue was discussed under item 10(c)(v).

Cllr Davies raised the climate change issue and requested the town council to lobby the county council to develop a plan of action for the next 10 years with targets to aim for neutral Co2.

It was agreed that the initiatives offered by Cllrs Shan Williams, Catrin Miles, Clive Davies and Richard Jones be collated and forwarded to the county council.

(c) **Y Cyng. / Cllr Debra Griffiths:**

(i) **Amserau casglu sbwriel yn Aberteifi – nodwyd.**

Rubbish collection timetable – noted.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.35yh***

*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.35pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....